

Glân a thaclus



Glân a thaclus Sebon Castile

Sebon Castile — bar o sebon gwyn hufennog ac ysgafn. Mae sebon Castile yn cael ei wneud drwy fudferwi olew olewydd, lleisw a phlanhigion glan y môr ar 100C am ryw awr, a'i droi'n gyson. Mae'n aeddfedu'n dda, ac yn caledu gydag amser. Ar ôl ei wneud, mae'n cymryd 3 wythnos i galedu digon i'w dorri'n fariau a'i godi o'r mowld, ond mae'n aeddfedu ac yn cadw'n dda.

Mae sebon Castile wedi'i ddefnyddio ers cyfnod yr Oesoedd Canol ac roedd yn cael ei fasnachu gan bedleriaid ar draws y rhan helaeth o Ewrop bryd hynny. Roedd o ansawdd gwell o lawer na'r sebon meddal o Brydain, a oedd yn cael ei wneud o wêr anifeiliaid (toddion) a lleisw, ac yn cael ei ddefnyddio yn y broses o wneud tecstilau i ddiseimio brethyn.



Sut ydyn ni'n gwybod am sebon Castile?

Disgrifiadau mewn llawysgrifau canoloesol a phapurau meddygol.



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Glân a thaclus

Crib bren

Crib bren — roedd cribau canoloesol wedi'u gwneud o bren, asgwrn neu ifori yn gyffredinol. Defnyddiwyd y dannedd mân i lanhau'r gwallt, tynnu llau a'u nedd, a defnyddiwyd y dannedd brasach i dwtio a steilio gwallt.



Sut ydyn ni'n gwybod am gribau pren?

Llawysgrifau canoloesol, gan gynnwys Luttrell Psalter, sy'n cynnwys darluniau o fenywod yn cribo'u gwallt gyda chribau pren. Mae darnau o grib bren wedi'u canfod yn ystod cloddfeydd archaeolegol.

Glân a thaclus

Set Chatelaine

Set Chatelaine — mae'r set hon o offer hylendid personol bach yn cynnwys y prif declynnau y byddai pobl yn eu defnyddio i ofalu amdanynt eu hunain — deintbig, ffeil ewinedd, plicwyr, a sgŵp clustiau.

Deintbig — byddai pobl yn glanhau eu dannedd a'u deintgig ac yn ffreshau'u hanadl drwy bigo bwyd rhwng y dannedd gan ddefnyddio deintbigau.

Ffeil ewinedd — byddai pobl yn ffeilio'u hewinedd drwy rwbio'r ffeil yn ôl ac ymlaen, mae'r ffeil ewinedd yn torri darnau bach o ewinedd i ffwrdd yn hytrach na threulio'r ewin i ffwrdd fel y gwna ffeiliau ewinedd modern.

Plicwyr — ar gyfer tynnu blew a fflawiau.

Sgŵp clustiau — ar gyfer tynnu cŵyr clustiau.



Sut ydyn ni'n gwybod am setiau chatelaine?

Maent wedi'u canfod yn ystod cloddfeydd archaeolegol mewn llawer o leoliadau ym Mhrydain.

Glân a thaclus Lliain a gwllân

Lliain a gwllân — yn ogystal â thynnu gronynnau o fwyd gan ddefnyddio deintbigau, roedd pobl yn glanhau eu dannedd drwy eu rhwbio â chlytiau gwllân neu liain, ac yna'u rinsio â dŵr neu wrin, ac yn cnoi perlyisiau. Efallai bod rhai pobl wedi glanhau eu dannedd hefyd gan ddefnyddio preniau helyg neu gyll â'u blaenau wedi'u cnoi.



Sut ydyn ni'n gwybod am glytiau glanhau dannedd?

Mae cofnodion a llyfrau canoloesol yn disgrifio sut oedd pobl yn glanhau'u dannedd. Gwnaeth Gerallt Gymro nodiadau am bobl o Gymru yn glanhau'u dannedd gan ddefnyddio preniau cyll.

Glân a thaclus

Drych efydd mewn cas asgwrn wedi'i gerfio

Drych efydd mewn cas asgwrn wedi'i gerfio —

roedd drychau efydd llathredig wedi'u defnyddio ym Mhrydain ers o leiaf 300CC, ac roedd drychau arian yn cael eu defnyddio yn y Canol Oesoedd hefyd. Mae'n amlwg fod y drych hwn wedi'i wneud ar gyfer rhywun cyfoethog, am fod y cerfio'n gain, ac mae gorchudd pren llithro yn diogelu'r drych efydd.

Roedd y Rhufeiniad a gwareiddiadau cynharach mewn rhannau eraill o'r byd wedi defnyddio gwydr â chefn metel i wneud drychau, ond ymddengys bod y dechnoleg hon wedi'i cholli neu'i hanghofio gan lawer o'r byd yn ystod cyfnod cynnar yr Oesoedd Canol. Dechreuwyd gwneud a defnyddio drychau o wydr â chefn metelig yn Ewrop eto ar ddiwedd y 12fed ganrif a dechrau'r 13eg ganrif, yn Fenis ac yn Nuremberg, a lledaenodd yr arfer ledled Ewrop yn y pen draw. Am fod boneddigion yn teithio'n helaeth, a bod marsiandwyr a phedleriaid yn dod â nwyddau i Brydain hefyd, mae'n hollol bosibl y gallai pobl cyfoethog iawn wedi bod yn defnyddio gwydrau gwydr wedi'u cludo i mewn ers cryn amser, hyd yn oed mor gynnar â'r 12fed Ganrif o bosibl, cyn iddynt ddechrau cael eu gwneud ym Mhrydain yn yr 17eg Ganrif.

Sut ydyn ni'n gwybod am ddrychau efydd mewn casys wedi'u cerfio?

Mae enghreifftiau o'r math hwn o ddrych wedi'u canfod yn ystod cloddiadau archaeolegol, ac mae darluniau mewn llawysgrifau canoloesol. Mae'r replica hwn yn seiliedig ar nifer o enghreifftiau canoloesol.

